



## GWARCHOD RHAG BOMIAU

Bu bomiau yn arfau poblogaidd gyda brawychwyr o'r 19eg ganrif ymlaen.

Hyd yn oed yn ystod cyfnodau pan fydd mwy nag arfer o frawychiaeth, mae'r posibilrwydd y bydd ymosodiad gan fom yn effeithio ar unrhyw unigolyn penodol yn isel, ond mae rhai lleoliadau, sefydliadau ac unigolion yn parhau'n fwy tebygol o fod yn darged ymosodiad gan frawychwyr nag eraill.

Mae'r rhan fwyaf o fomiau brawychol yn ddyfeisiau wedi'u haddasu ac felly fe'u gelwir yn ddyfeisiau ffrwydrol wedi'u haddasu neu IED. Gellir eu categorio yn ôl y ffordd y cânt eu trosglwyddo:

- Cerbyd (car, lorry, beic)
- Llythyr (parsel neu becyn)
- Eu cludo gan unigolyn (sach deithio, bag dogfennau, bag llaw neu eu cuddio ar y corff).

Gellir eu categorio yn ôl cynnwys hefyd, e.e. cemegol, biolegol, radiolegol, niwclear, bom tân neu IED confensiynol.

Os oes gennych reswm dros gredu y gallech chi fod yn darged i ymosodiad gan fom, fe ddylech asesu'r bygythiad a'r difrod posib a chynllunio sut i atal neu liniaru hynny. Cofiwch bob amser pa mor bwysig yw cyfathrebu â staff, boed i'w hysbysu, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt neu i dawelu eu meddyliau.

Fe gewch chi ragor o wybodaeth gan eich Cyngorydd Diogelwch Gwrthfrawychiaeth (CTSA) lleol a all eich helpu gyda'ch cynllun asesu risg.

# DYFEISIAU FFRWYDROL WEDI'U HADDASU MEWN CERBYD (VBIED)

Ffrwydrad bom car.

Bomiau cerbyd yw un o arfau mwyaf effeithiol y brawychwr. Mae'n ffordd o drosglwyddo llawer iawn o ffrwydron at darged a gallant achosi llawer iawn o ddifrod.

Yn gyffredinol, mae bomiau cerbyd yn perthyn i dri chategori:

- Dyfais ffrwydrol wedi'i haddasu sy'n cael ei chludo o dan gerbyd (UVIED)
- Math o IED bach yw UVIED, sy'n cael ei osod mewn cerbyd, neu o dan gerbyd. Bydd yn ffrwydro wrth i'r cerbyd symud, gan ladd neu niweidio'r bobl y tu mewn
- Dyfais ffrwydrol wedi'i haddasu sy'n cael ei chludo mewn cerbyd (VBIED)
- Car neu fan yn llawn ffrwydron yw VBIED, sy'n cael ei yrru at darged cyn ei danio
- Dyfais ffrwydrol wedi'i haddasu sy'n cael ei chludo mewn cerbyd mawr (LVBIED)

Lori neu dryc yn llawn ffrwydron yw LVBIED. Mewn cerbydau fel hyn gall brawychwyr gario pentwr o ffrwydron, tunelli o bosib, at y targed. Gallant achosi anafiadau a dinistr dros gannoedd o fetrau.

Ar y cyfan, bydd bomiau cerbyd yn defnyddio ffrwydrin wedi'i addasu neu gymysgedd sy'n llosgi i greu'r ffrwydrad. Bydd y bomiau'n cael eu paratoi dros gyfnod o amser, yn ddigon pell oddi wrth y targed. Gellir cuddio'r ffrwydron mewn cynhwysydd fel casgen gwrw, bin sbwriel, bin olwynion neu gês dillad mawr.

Unwaith y bydd y bom yn gyflawn, gellir ei drosglwyddo unrhyw adeg yn ôl mympwy'r brawychwr ac yn eithaf agos at y targed, gan ddibynnu ar yr amddiffynfeydd. Gellir ei danio o bellter diogel gan ddefnyddio amserydd neu declyn rheoli o bell, neu gall hunanfomiwr ei danio yn y fan a'r lle.

Mae adeiladu bom cerbyd yn galw am lawer iawn o amser, adnoddau a medr. Oherwydd hyn, bydd brawychwyr yn ceisio greu'r difrod mwyaf posib gyda bom o'r fath. Yn gyffredinol byddant yn dewis targedau amlwg dros ben lle gallant achosi'r difrod mwyaf posib, peri'r anafiadau i lawer a denu cyhoeddusrwydd eang.

Beth allwch chi ei wneud

Os ydych yn meddwl y gallai eich sefydliad chi fod mewn perygl o unrhyw fath o fom cerbyd:

- Sicrhewch fod unigolyn penodol yn gyfrifol am ddiogelwch a bod yr heddlu'n gwybod eich cynlluniau a chynllun eich adeilad
- Defnyddiwch arferion sylfaenol da, fel rheoli mynediad i gerbydau a chyfyngiadau parcio
- Ystyriwch ddefnyddio rhwystrau i gadw pob cerbyd heb awdurdod yn ddigon pell i ffwrdd. Holwch gyngor yr heddlu ynghylch y rhwystrau hyn a mesurau eraill fel dulliau gwyliadwriaeth electronig
- Ble bo modd, dylai unrhyw gerbydau sy'n cael gyrru at eich adeilad fod wedi'u hawdurdodi ymlaen llaw a dylid eu chwilio. Dylai manylion y gyrrwr gael eu dilysu ymlaen llaw hefyd
- Gwnewch yr hyn a allwch i wneud eich adeilad yn fwy abl i wrthsefyll ffrwydrad, gan roi sylw arbennig i ffenestri. Gofynnwch i beiriannydd diogelwch arolygu'r adeilad wrth roi cyngor am leoedd diogel penodedig. Mae'n bosib y byddwch eisiau cael rhagor o gyngor technegol ynghylch systemau cyfathrebu a systemau cyhoeddi
- Dylech sefydlu ac ymarfer driliau ar gyfer bygythiadau bom a driliau gwagio'r safle. Cofiwch, gan ddibynnu ar ble mae'r bom cerbyd posib wedi'i barcio a chynllun eich adeilad, mae'n bosib y byddai'r staff yn fwy diogel mewn coridorau heb ffenestri neu ar y llawr isaf un (o dan lefel tir) nag allan yn yr awyr iach. Wrth bennu manau ymgynnull ar gyfer staff, rhaid rhoi ystyriaeth i ba mor agos yw'r bygythiad posib. Cofiwch, petai bom cerbyd yn cael ei yrru i mewn i'ch adeilad – er enghraifft trwy

feysydd parcio tanddaearol neu drwy fynedfa eich safle – fe allai hynny gael effaith ddinistriol lawer gwaeth ar yr adeiledd na dyfais wedi'i thanio y tu allan i'r adeilad

- Trefnwch hyfforddiant staff a chynhaliwch ymarferiadau ynghylch adnabod cerbydau amheus, ac o ran derbyn rhybuddion am fomiau a gweithredu yn sgil hynny. Dylai gwybodaeth a rhifau ffôn allweddol gael eu harddangos yn amlwg, wrth law yn rhwydd.

# DYFEISIAU FFRWYDROL WEDI'U HADDASU O DAN GERBYD (UVIED)

## UVIED nodweddiadol

Pwrpas bomiau car fel hyn yw lladd y gyrrwr neu'r teithiwr.

Yn aml maent yn cynnwys ffrwydryn plastig (PE) fel Semtex H neu ffrwydryn masnachol arall wedi'i guddio o dan y car.

Fel arfer bydd y ddyfais yn tanio wrth i'r cerbyd symud neu wyro, ond weithiau defnyddir dyfais amseru neu signal electronig o bell.

Ychydig iawn o bobl sy'n wynebu bygythiad fel hyn. Pwysigion neu unigolion cynrychioliadol eraill ydynt gan fwyaf, neu bobl y bydd y brawychwyr yn syml iawn yn awyddus i'w lladd. Ar 30 Mawrth 1979 fe laddwyd Airey Neave, gwleidydd a chyfaill mynwesol i'r cyn Brif Weinidog Mrs Thatcher, gan Fyddin Rhyddid Cenedlaethol Iwerddon (INLA) pan ffrwydrodd UVIED o dan ei gar wrth iddo fynd dros y ramp o'r maes parcio tanddaearol yn Nhŷr Cyffredin.

Cafodd yr Aelod Seneddol Ian Gow yntau ei lofruddio trwy gyfrwng UVIED, gan yr IRA Dros Dro yn 1990.

Beth allwch chi ei wneud

- Gan mai prin yw'r bobl sy'n wynebu ymosodiadau o'r fath, gallwch ddisgwyl i'r heddlu ddweud wrthych os ydych yn darged a rhoi cyngor am wrthfesurau. Fe gewch ragor o gyngor am wrthfrawychiaeth yr heddlu trwy Gyngorydd Diogelwch Gwrthfrawychiaeth eich heddlu lleol.

## BOMIAU LLYTHYR

Dyma ddyfais a gafodd ei defnyddio'n gyffredin gan frawychwyr. Gall bomiau llythyr hefyd gynnwys parseli, pecynnau ac unrhyw beth arall a ddanfonir trwy'r post neu gan negeswyr.

Dylai asesiad risg priodol roi syniad da i chi o'r bygythiad tebygol i'ch sefydliad a dangos beth ddylech chi ei wneud i atal hynny.

Gall bomiau llythyr fod yn ddyfeisiadau ffrwydro neu'n rhai sy'n llosgi (dyna'r ddau fath mwyaf tebygol); weithiau gallant fod yn ddyfeisiau cemegol, biolegol neu radiolegol. Mae unrhyw un sy'n derbyn llythyr amheus yn annhebygol o wybod pa fath ydyw, felly fe ddylai'r rhagofalon ofalu am bob posibilrwydd.

Mae'n debyg y bydd bom llythyr wedi cael ei drin yn eithaf garw yn y post, felly mae'n annhebygol o ffrwydro trwy gael ei symud, ond fe allai unrhyw ymgais i'w agor ei danio. Oni bai bod negesydd yn ei ddanfon, nid yw'n debygol o gynnwys dyfais amseru.

Mae bomiau llythyr yn amrywio o ran maint a siâp; mae'r rhai gorau yn edrych yn ddigon diniwed ond mae yna arwyddion y gallwch chwilio amdanynt.

Arwyddion o fom llythyr:

- Rhywbeth annisgwyl neu sy'n dod o le anarferol neu oddi wrth anfonwr anghyfarwydd
- Dim cyfeiriad dychwelyd neu ni ellir dilysu'r cyfeiriad
- Cyfeiriad gwael neu anghywir, e.e. teitl anghywir, wedi'i gamsillafu, teitl ond dim enw, neu wedi'i gyfeirio at unigolyn sy ddim yn gweithio i'r cwmni bellach
- Y cyfeiriad wedi'i brintio'n anwastad neu mewn ffordd anarferol
- Ysgrif mewn arddull tramor anghyfarwydd
- Marciau post anarferol neu farciau talu am bostio sy'n anghyfarwydd
- Defnyddiwyd bag Jiffy, neu amlen drwchus
- Mae'n ymddangos yn anghyffredin o drwm am ei faint. Mae'r rhan fwyaf o llythyrau'n pwyso hyd at 30g yn fras, tra bo'r rhan fwyaf o fomiau llythyr effeithiol yn pwyso 50-100g ac yn 5mm neu fwy o drwch
- Mwy na'r gwerth priodol o stampiau ar gyfer ei faint a'i bwysau
- Mae 'personol' neu 'cyfrinachol' wedi'i ysgrifennu arno
- Siâp od neu rywbeth yn ddi-siâp amdano
- Fflap yr amlen wedi'i llynu'n llwyr (fel arfer bydd bwch heb lud o 35mm yn y corneli ar llythyrau cyffredin)
- Twll maint pin yn yr amlen neu bapur lapio'r pecyn
- Arogl anarferol, gan gynnwys almonau, amonia neu farsipán, ond heb ei gyfyngu i'r rhain yn unig
- Staeniau seimllyd neu olewog ar yr amlen
- Mae yna amlen fewnol ychwanegol sydd wedi'i chau neu'i chlymu'n dynn â thâp (wrth gwrs, mewn rhai sefydliadau bydd deunydd sensitif yn cael ei anfon mewn amlenni dwbl bob amser).

## Beth allwch chi ei wneud

Er y dylai unrhyw eitem amheus gael ei thrin yn ddifrifol, cofiwch mai camrybuddion fydd y mwyafrif helaeth, ac efallai mai bomiau ffug fydd ambell un. Gwnewch yn siwr bod eich trefniadau'n effeithiol, ond ceisiwch sicrhau na fyddant yn tarfu heb fod angen. Ystyriwch y canlynol wrth gynllunio:

- Gofynnwch i CTSA eich heddlu lleol am gyngor ynghylch y bygythiad ac ynghylch mesurau amddiffynnol
- Ystyriwch brosesu'r holl bost a ddaw i mewn ac unrhyw ddsbarthiadau mewn un man yn unig. Yn ddelfrydol dylai hyn fod yn rhywle oddi ar y safle neu mewn adeilad ar wahân, neu o leiaf mewn man y gellir ei neilltuo a ble gellir trin eitemau a ddanfonir heb eu cario trwy rannau eraill o'r adeilad
- Gwnewch yn siwr bod yr holl staff sy'n trin y post yn cael eu briffio a'u hyfforddi. Dylai hyn gynnwys staff y dderbynfa. Anogwch bobl sy'n postio pethau atoch yn rheolaidd i roi eu cyfeiriad dychwelyd ar bob eitem
- Sicrhewch fod pob ffynhonnell ar gyfer y post sy'n dod i mewn (e.e. y Post Brenhinol, negeswyr, danfon â llaw) yn cael ei chynnwys yn eich proses sgrinio
- Yn ddelfrydol, dylai ystafelloedd post fod â systemau awyru a larymau annibynnol, yn ogystal â sganwyr a pheiriannau pelydr x. Fodd bynnag, er y gallai sganwyr llythyrau ganfod dyfeisiau ar gyfer

lledaenu deunyddiau cemegol, biolegol a radiolegol (CBR) (e.e. dyfeisiau ffrwydrol), ni fyddant yn canfod y deunyddiau CBR eu hunain. Ar hyn o bryd, ni all unrhyw beiriant canfod CBR adnabod pob perygl yn hollol ddibynadwy a chyson. Dylai ystafelloedd post hefyd fod â'u cyfleusterau ymolchi a chawod eu hunain, gan gynnwys sebón a glanedydd

- Mae angen i staff fod yn ymwybodol o'r patrwm danfon arferol a chael eu briffio am eitemau anarferol a ddisgwylir. Hyfforddwch nhw i agor y post gydag agorwyr llythyrau (gyda chyn lleied o symudiad â phosib), gan gadw eu dwylo oddi wrth eu trwynau a'u cegau a golchi eu dwylo bob amser wedyn. Ni ddylai'r staff chwythu i amlenni na'u hysgwyd. Os bydd rhywun yn amau bod pecynnau yn cynnwys deunydd CBR, yn ddelfrydol fe ddylid eu gosod mewn bag wedi'i selio ddwywaith
- Ystyriwch a oes angen i staff sy'n trin y post gael offer diogelu fel menyng latecs a masgiau wyneb (gofynnwch am gyngor gan rywun cymwys sy'n arbenigo ar iechyd a diogelwch). Gwnewch yn siwr bod oferòls ac esgidiau ar gael, rhag ofn y bydd raid i staff dynnu dillad wedi'u heintio
- Gwnewch yn siwr bod modd gwagio manau agor y post yn gyflym. Dylech ymarfer trefniadau a llwybrau gadael, a dylai hyn gynnwys cyfleusterau golchi ble gallai staff wedi'u heintio gael eu rhoi a'u trin
- Paratowch arwyddion i'w harddangos i staff petai ymosodiad yn cael ei amau neu ymosodiad gwirioneddol.

# Y MOSODIADAU CEMEGOL, BIOLEGOL A RADIOLEGOL

Ers dechrau'r 1990au, mae'r pryder y gallai brawychwyr ddefnyddio deunyddiau CBR fel arfau wedi cynyddu'n gyson.

Term cyffredinol yw "CBR" am dri grŵp penodol o beryglon:

- Cemegol. Gwenwyno neu niwed sy'n cael ei achosi gan sylweddau cemegol, gan gynnwys cyfryngau rhyfela cemegol a arferai gael eu defnyddio yn y maes milwrol, neu gemegion cyfreithlon ond niweidiol a geir yn y cartref neu gemegion diwydiannol.
- Biolegol. Achosi salwch trwy ryddhau bacteria, firysau neu ffyngau yn fwriadol, neu docsinau biolegol (e.e. ricin, sef tocsin naturiol a geir mewn planhigion).
- Radiolegol (ymbelydrol). Achosi salwch trwy ryddhau deunyddiau ymbelydrol niweidiol a llygru'r amgylchedd.

Gweler "Gwybodaeth gefndir am ddeunyddiau CBR" i gael gwybod mwy am fygythiadau penodol.

Gweithgarwch troseddol yw llawer o'r hyn a fu'n gysylltiedig â CBR hyd yma, neu bobl yn ffugio neu gamrybuddion. Hyd yn hyn, prin yw'r enghreifftiau o frawychwyr yn defnyddio deunyddiau CBR. Yr enghraifft amlycaf oedd ymosodiad nwy sarin yn 1995 ar reilffordd danddaearol Tokyo, gan ladd deuddeg o bobl, a llythyrau anthrac yn yr Unol Daleithiau yn 2001, a laddodd bump o bobl.

Ychydig o ddefnydd a wnaed o arfau CBR hyd yma, yn bennaf oherwydd ei bod hi'n anodd cael gafael ar y deunyddiau ac yn anodd eu defnyddio'n effeithiol. Yn yr achosion ble ceisiodd brawychwyr gynnal ymosodiadau CBR, deunyddiau cymharol syml oedd ganddynt ar y cyfan. Fodd bynnag, mae Al Qaida a grwpiau perthynol wedi mynegi diddordeb o ddirif mewn defnyddio CBR.

Byddai effaith unrhyw ymosodiad CBR gan frawychwyr yn dibynnu i raddau helaeth ar lwyddiant y dull o ledaenu a'r tywydd adeg yr ymosodiad.

Mae'r tebygolrwydd y ceir ymosodiad CBR yn parhau'n isel. Fel gydag ymosodiadau eraill gan frawychwyr, mae'n bosib na chewch rybudd ymlaen llaw ynghylch digwyddiad CBR. Hefyd, mae'n bosib na fydd union natur digwyddiad o'r fath yn amlwg ar unwaith. Efallai mai'r arwyddion cyntaf fydd ymddangosiad disymwth powdrau, hylifau neu arogleuon rhyfedd o fewn yr adeilad, boed y rheiny'n effeithio ar bobl yn y fan a'r lle neu beidio.

Bydd mesurau diogelwch corfforol a diogelwch personél da yn cyfrannu i'ch gwneud yn fwy abl i wrthsefyll digwyddiadau CBR. Cofiwch osod safonau diogelwch personél priodol wrth ddelio â chontractwyr, yn enwedig y rhai sydd â mynediad cyson i'ch safle.

Beth allwch chi ei wneud

Pwyntiau cyffredinol

- Ystyriwch ddiogelwch corfforol eich systemau trin aer, er enghraifft mynediad at fannau lle mae aer yn cyrraedd a gadael y system
- Defnyddiwch well hidlyddion aer neu uwchraddiwch eich systemau trin aer, yn ôl yr angen
- Cyfyngwch fynediad at danciau dŵr a chyfleustodau allweddol eraill
- Edrychwch ar ddiogelwch eich cadwyni cyflenwi bwyd a diod
- Ystyriwch a oes angen i chi wneud trefniadau arbennig ar gyfer llythyrau neu barseli, e.e. ystafell ar wahân ar gyfer y post, gyda system drin aer ar wahân o bosib, neu hyd yn oed gyfleuster arbenigol oddi ar y safle.
- Mae'r Swyddfa Gartref yn cynghori sefydliadau i beidio â defnyddio technolegau canfod CBR fel rhan o'u mesurau cynllunio wrth gefn ar hyn o bryd. Y rheswm yw na roddwyd prawf digonol ar y dechnoleg dan amgylchiadau sifil; petai yna ddigwyddiad CBR, byddai'r gwasanaethau brys yn cael eu hanfon i'r

safle gyda systemau canfod priodol ac yn rhoi cyngor yn sgil hynny. Trwy wneud y pethau canlynol, dylech fod mewn sefyllfa eithaf da o ran bod yn fwy abl i wrthsefyll digwyddiadau: bod yn sylfaenol ymwybodol o fygythiad a pheryglon CBR; sefydlu mesurau diogelwch amddiffynnol cyffredinol (e.e. sgrinio ymwelwyr, monitro'r perimedr a'r fynedfa gyda CCTV, bod yn wyliadwrus rhag llythyrau a pheccynnau amheus). Yn gyntaf oll, gofynnwch am gyngor gan CTSA eich heddlu lleol

- Os oes gennych le diogel penodedig, mae'n bosib y byddai'n addas fel lloches rhag CBR, ond gofynnwch am gyngor gan CTSA eich heddlu lleol cyn gwneud cynlluniau i'w ddefnyddio fel hyn
- Ystyriwch sut i roi cyngor angenrheidiol am ddiogelwch i'ch staff a sut i dawelu eu meddyliau. Mae angen i hyn gynnwys cyfarwyddiadau i'r rhai sydd eisiau gadael, dychwelyd neu ddod i mewn i'r adeilad.

## Deunyddiau CBR yn y post

Fe all brawychwyr geisio defnyddio deunyddiau cemegol, biolegol neu radiolegol mewn bomiau llythyr. Mae'n anodd rhoi rhestr lawn o'r hyn a allai fod yn arwydd o CBR, oherwydd bod y deunyddiau mor amrywiol. Fodd bynnag, dyma rai o'r pethau mwyaf cyffredin ac amlwg:

- Sylwedd sy'n annisgwyl o ronynnol, grisialog neu bowdwr mân (o unrhyw liw ac fel arfer o ansawdd coffi, siwgr neu bowdr codi), yn rhydd neu mewn cynhwysydd. Gall dyfeisiau CBR sy'n cynnwys powdwr mân neu hylif fod yn beryglus heb eu hagar.
- Sylweddau gludiog annisgwyl, chwistrellau neu anweddau.
- Darnau annisgwyl o fetel neu blastig, fel disgiau, rhodenni, dalennau neu sfferau bach
- Arogleuon rhyfedd, e.e. fel garleg, pysgod, ffrwythau, peli camffor, pupur, cig, pydredd. Os byddwch yn sylwi ar arogl, peidiwch â dal ati i'w arogl. Fodd bynnag, does dim arogl na blas ar rai deunyddiau CBR.
- Staeniau neu leithder ar y pecyn.
- Salwch sydyn neu gosi ar eich croen, llygaid neu drwyn.

Beth ddylech chi ei wneud gydag achos o CBR

- Mae'n bosib na fydd union natur y digwyddiad (cemegol, biolegol neu radiolegol) yn amlwg yn syth. Cadwch eich cynlluniau ymateb yn rhai cyffredinol ac arhoswch am gymorth gan y gwasanaethau brys
- Adolygwch eich cynlluniau ar gyfer amddiffyn staff petai bygythiad neu ymosodiad gan frawychwyr. Cofiwch nad gadael y safle yw'r ateb gorau bob tro. Bydd raid i chi gael arweiniad gan y gwasanaethau brys ar y diwrnod
- Cynlluniwch ar gyfer cau systemau a allai gyfrannu at symudiad peryglon yn yr aer (e.e. diffodd offer cyfrifiadurol sydd â ffaniau)
- Gwnewch yn siwr bod modd cau drysau'n gyflym petai angen
- Os nad yw eich ffenestri allanol wedi'u selio ar gau yn barhaol, datblygwch gynlluniau ar gyfer eu cau mewn ymateb i rybudd neu ddigwyddiad
- Edrychwch ar ymarferoldeb cau'r systemau trin aer yn gyflym, gan sicrhau bod unrhyw gynlluniau o'r fath yn cael eu hymarfer yn gyson
- Os gellir neilltuo perygl trwy gael pawb i adael y manau cyfagos, gwnewch hynny cyn gynted â phosib, gan gau drysau a ffenestri ar eich ôl
- Symudwch y bobl a ddioddefodd yn uniongyrchol yn sgil digwyddiad i rywle diogel mor agos â phosibl i leoliad y digwyddiad, er mwyn sicrhau nad yw llygredd o'r digwyddiad yn lledaenu
- Ewch ati wahanu'r bobl a ddioddefodd yn uniongyrchol yn sgil y digwyddiad oddi wrth bawb arall, er mwyn lleihau'r risg o lygru pobl eraill yn anfwriadol
- Gofynnwch i bobl beidio â chrwydro – er na allwch eu cadw'n groes i'w hewyllys

- Does dim rhaid i chi wneud unrhyw drefniadau arbennig ac eithrio trefniadau cymorth cyntaf arferol. Bydd y gwasanaethau brys yn ysgwyddo cyfrifoldeb am drin anafiadau.

# GWYBODAETH GEFNDIR AM DDEUNYDDIAU CEMEGOL, BIOLEGOL A RADIOLEGOL (CBR)

## Cemegol

Yn gyffredinol bydd cemegion gwenwynig a chrydol yn effeithio ar bobl yn gymharol gyflym (o fewn munudau neu oriau). Mae'r dewisiadau ar gyfer ymosodiad bwriadol yn amrywio o gemegion y cartref sydd ar gael dros y cownter, neu gemegion diwydiannol fel syanidau, i gyfryngau rhyfela cemegol fel sarin, sy'n effeithio ar y system nerfol.

Mae rhagor o wybodaeth am beryglon cemegol ar wefan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd.

## Biolegol

Cafodd clefydau heintus eu defnyddio yn erbyn byddinoedd a'r boblogaeth sifil gydol hanes. Yn yr ugeinfed ganrif, gwelwyd rhaglenni rhyfela milwrol biolegol yn defnyddio organebau neu docsinau hynod bur mewn systemau arfau.

Yn wahanol i gemegion gwenwynig, yn gyffredinol mae effeithiau cyfryngau biolegol yn cymryd mwy o amser i ymddangos: nid yw'n anarferol cael cyfnod heintus sy'n para dyddiau neu wythnosau, er bod tocsinau yn gweithio'n llawer cyflymach, ar y cyfan. Mae llawer o'r clefydau heintus o ganlyniad i ryddhau cyfryngau biolegol yn cael eu trosglwyddo'n hawdd o berson i berson. Mae anthracs yn eithriad, ac nid yw'n cael ei ledaenu fel hyn.

Mae rhagor o wybodaeth am beryglon biolegol ar wefan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd.

## Radiolegol

Atomau ansefydlog sy'n allyrru ymbelydredd a allai fod yn beryglus yw deunyddiau ymbelydrol (radiolegol). Fel arfer, mae dyfeisiau gwasgaru radiolegol (RDD), neu 'fomiau brwnt' fel y'u gelwir, yn dyfeisiau sy'n cyfuno deunyddiau ymbelydrol â ffrwydron confensiynol.

O danio dyfais o'r fath, ni fydd ffrwydrad niwclear ond, gan ddibynnu ar y math o ffynhonnell ymbelydrol, bydd yr ardaloedd cyfagos yn cael eu heintio. Yn ogystal ag achosi nifer o anafiadau yn ystod y ffrwydrad dechreuol, mae'n bosib y bydd bygythiad tymor hir i iechyd hefyd. Mae llawer o grwpiau brawychol wedi mynegi diddordeb, neu wedi ceisio defnyddio 'bomiau brwnt' fel ffordd o ymosod.


Mae rhagor o wybodaeth am beryglon radiolegol ar wefan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd.

# BOMIAU SY’N CAEL EU CLUDO GAN BOBL

## Bomiau sy’n cael eu cludo gan bobl

Fel mae’r enw yn awgrymu, dyfeisiau ffrwydrol sy’n cael eu cario gan unigolyn yw’r rhain fel arfer.

Fel arfer, byddant yn cael eu cario mewn cynwysyddion fel sachau teithio neu fagiau dogfennau, a’r rheiny wedi’u dewis rhag bod yn amlwg.

Oherwydd bod angen gallu eu cario’n hawdd, mae’n annhebygol y bydd bomiau o’r fath yn pwyso mwy na 25kg, er bod bag dogfennau o faint cyffredin yn gallu cynnwys tua 12kg o ffrwydron. Gallai bom 25kg mewn cês dillad ddinistrio  neu achosi difrod difrifol i adeiladau mwy.

Bydd brawychwyr yn aml yn gwneud eu bomiau’n fwy effeithiol trwy gynnwys pethau fel hoelion, nytau a bolltau neu eitemau tebyg, i weithredu fel shrapnel. Gall arfau o’r fath gael effaith ddifrodus dros ben mewn lle bach.

Beth allwch chi ei wneud

- Mae cadw lle trefnus, twt gan reoli mynediad i staff ac ymwelwyr yn effeithiol, yn golygu y bydd llawer llai o bosibilrwydd y gall rhywun gario bom ar eich safle.
- Yn ystod adegau o wylidwriaeth uchel, mae’n bosib mai’r unig ffordd o warchod ac atal ymosodiadau fydd chwilio bagiau.
- Petai eitem amheus yn cael ei darganfod wrth chwilio, ni ddylid ei chyffwrdd na’i symud o gwbl dan unrhyw amgylchiadau. Cysylltwch â’r heddlu ar unwaith a byddant yn sicrhau ymateb priodol.
- Ystyriwch ddulliau corfforol o gyfyngu ar fynediad o’r dderbynfa i weddill yr adeilad, er enghraifft trwy ddefnyddio rhwystrau neu ddrysau o faint llawn i reoli mynediad.

## HUNANFOMWYR

Mae brawychwyr wedi defnyddio bomiau hunanladdiad ers degawdau. Fel y dangosodd yr ymosodiadau gan hunanfomwyr yn Efrog Newydd a Llundain, bellach daeth hyn i fygwth rhannau o'r byd na chafodd brofiad o frawychiaeth hunanfomwyr yn y gorffennol.

Gallai hunanfomwyr ddefnyddio lori, awyren neu fath arall o gerbyd fel bom – un ai gan gario ffrwydrion neu gan ddefnyddio'r tanwydd yn nhanc y cerbyd fel ffrwydrion – neu gallent guddio ffrwydrion ar eu cyrff. Yn gyffredinol, bydd y ddau fath o ymosodiad yn digwydd heb rybudd. Y targedau mwyaf tebygol yw lleoliadau symbolaidd, sefydliadau allweddol, pobl bwysig iawn neu dargedau 'meddal' lle gellir anafu llawer o bobl.

Wrth ystyried mesurau amddiffynnol yn erbyn hunanfomwyr, meddyliwch yn nhermau:

- Gwrthod rhoi mynediad i unrhyw un neu unrhyw beth sydd heb ei chwilio'n drylwyr. Gwnewch yn siwr nad oes neb yn gallu ymweld â'ch lle diogel penodedig heb i chi fod yn sicr pwy yw ef neu hi neu heb gael awdurdod priodol. Gofynnwch am ragor o gyngor trwy CTSA eich heddlu lleol.
- Sefydlu eich ardal chwilio yn ddigon pell oddi wrth y lle diogel penodedig, dan drefnu patrolau cyson a briffio'r staff i fod ar eu gwyliadwriaeth am unrhyw un sy'n ymddwyn yn amheus; cyn llawer o ymosodiadau bomiau bydd y brawychwyr wedi cynnal teithiau 'arbrofol' neu ymchwilio i'r ardal ymlaen llaw. Dylech sicrhau bod yr heddlu'n cael gwybod am ddiwyddiadau o'r fath
- Gall systemau CCTV effeithiol helpu i atal neu hyd yn oed rwystro 'ymchwilio' o'r fath, a gall fod yn dystiolaeth hollbwysig yn y llys
- Nid oes proffil corfforol pendant ar gyfer hunanfomiwr, felly byddwch ar eich gwyliadwriaeth a chysylltwch â'r heddlu ynghylch unrhyw un amheus.

# BOMIAU O'R AWYR A'R MÔR

Ers y Rhyfel Byd Cyntaf, mae gollwng bomiau o'r awyr wedi dod yn rhan gyfarwydd o ryfela yn yr 20fed ganrif.

Er y byddai'n bosib i frawychwyr gael awyren a gollwng bomiau ohoni, oherwydd yr hyfforddiant a'r offer y byddai ei angen i wneud hynny'n fanwl-gywir ac effeithiol, nid yw'n dacteg sy'n cael ei defnyddio'n aml gan frawychwyr.

Mae yna bron bob amser ffyrdd haws o drosglwyddo dyfais frawychol. Er, os yw'r targed yn un mawr, nid yw gallu taro'n fanwl gywir lawn mor bwysig.

Yn yr ymosodiadau enbyd ar Efrog Newydd a Washington ar 11 Medi 2001, cafodd yr awyrennau eu hunain eu defnyddio fel bomiau, er nad dyma'r tro cyntaf i awyrennau gael eu defnyddio yn y fath fodd. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, bu peilotiaid kamikaze o Japan yn ceisio suddo llongau rhyfel America fel hyn, a thua diwedd y rhyfel aeth rhai peilotiaid yn Luftwaffe yr Almaen ati'n fwriadol i yrru eu hawyrennau i mewn i bontydd er mwyn arafu symudiad y Cynghreiriaid tua Berlin. Yn 1950 bu Gweinyddiaeth Amddiffyn Prydain yn ystyried y posibilrwydd y byddai ymosodiad o'r fath gan y Sofietaid ar Lundain, gan ddefnyddio awyren sifil ag arfau niwclear.

Serch hynny, er 11 Medi 2001, tynhawyd rheolaeth ar awyrennau, criw, teithwyr a bagiau yn sylweddol ac mae llywodraethau wedi dod yn fwy ymwybodol o'r angen am fesurau ataliol sy'n ei gwneud hi'n anos i fomwyr deithio.

Ffyrdd eraill o ollwng bomiau o'r awyr, ond sy'n anghyffredin hyd yn hyn, yw trwy falw'n, paragleider - math o barasiwt y gellir ei lywio - neu farcutwr. Tacteg fwy cyffredin yw ymosodiad trwy roced; defnyddir hyn weithiau dros bellter byr gan frawychwyr yn y Dwyrain Canol. Ond oni bai fod brawychwyr yn datblygu ffordd o danio rocedi dros bellter mawr, sy'n gostus a thechnegol anodd, ymosodiadau ar raddfa fach fydd y rhan fwyaf ar y cyfan, neu o fewn tiriogaethau cynhennus neu ardaloedd brwydro. Hyd yn oed yno, bychan yw'r bygythiad fel arfer gyda'r rocedi a ddefnyddir yn cario llwyth bach heb lawer o ffrwydrad.

Beth allwch chi ei wneud

- Ni allwch wneud unrhyw beth i amddiffyn eich safle rhag ymosodiad o'r math a gafwyd ar 11 Medi. Ond petai ymosodiad ar darged cyfagos, fe fydd y mesurau safonol i amddiffyn rhag bomiau yn lleihau'r effeithiau dinistriol ar eich safle a gerllaw. Gwnewch yn siwr hefyd eich bod yn ymarfer eich trefniadau ar gyfer gwagio'r safle.
- Y rhagofalon gorau yn erbyn paratodau ar gyfer ymosodiad o'r awyr yw cael cyhoedd gwylidwrs. Fel arfer, dim ond llywodraethau, sefydliadau sy'n gweithio gyda'r llywodraeth (fel cwmnïau awyrennau) a systemau casglu gwybodaeth da a all atal ymosodiadau a sicrhau mesurau amddiffynol

## Bomiau ar y môr

Mae defnyddio cychod neu longau fel bomiau ar y môr yn hen dacteg ryfel. Nid yw'n dacteg gyffredin gan frawychwyr: hyd yn hyn mae'n beth cymharol brin, a ddefnyddir yn bennaf yn erbyn llongau eraill. Llwyddodd Al Qaida i ymosod ar USS Cole ym mhorthladd Ymenaidd Aden ym mis Hydref 2000 a'r MV Limburg ym mhorthladd Ymenaidd Ash Shihr ym mis Hydref 2002 trwy hwylio cychod bach, gyda chriw o hunanfomwyr, at ochr y llong.

Byddai'n bosib gosod bom ar long a'i hwylio i borthladd neu ddinas ar yr arfordir trwy adeiladu dyfais fawr iawn – neu ddyfais niwclear – mewn llong fasnach (sef posibilrwydd arall a ystyriwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn 1950), neu mewn cynhwysydd ar fwrdd llong. Fel gyda bomiau o'r awyr, dyma fygythiad na all ond llywodraethau a'r diwydiant dan sylw fynd i'r afael ag ef.

Beth allwch chi ei wneud

- Cynnal asesiad trylwyr o'r bygythiad, gan roi ystyriaeth i lwybrau ac angorfeydd.
- Ble bo'n berthnasol, cysylltu ag awdurdodau diogelwch lleol.
- Bod ar wylidwriaeth gyson, 24 awr, 360 gradd, gan gynnwys tua'r môr.
- Ceisio peidio â chaniatáu i unrhyw gychod dieithr ddynesu.

- Ystyried rhwystr neu gadwyn o gwmpas y llong neu'r sefydliad.
- Bod â thimau a threfniadau ymateb wrth gefn.

# BOMIAU TÂN

Dyfeisiau tân bach

Cafodd bomiau tân eu defnyddio'n aml gan frawychwyr i ymosod ar dargedau economaidd.

Yn gyffredinol, dyfeisiau llaw yw'r rhain, sy'n aml yn cael eu defnyddio yn erbyn targedau fel siopau a thrafnidiaeth. Y bwriad fel arfer yw achosi difrod economaidd a gwanhau hyder y cyhoedd yn hytrach na niweidio llawer o bobl.

Wrth gynllunio mesurau amddiffynnol, cofiwch mai pethau bach yw bomiau tân fel arfer, eu bod yn mynd ar dân yn hytrach na ffrwydro (yn aml pan fydd y safle dan sylw yn wag) ac fel arfer bydd mwy nag un ddyfais.

Bydd yr ymosodwr yn ystyried bod ymosodiad wedi llwyddo hyd yn oed os na wneir mwy na chychwyn y system chwistrellu, gan ddifrodi stoc neu ddodrefn. Mae dyfeisiau tân yn weddol hawdd i'w gwneud ac nid oes raid cael mynediad at ffrwydron.

Beth allwch chi ei wneud

- Trefnwch i chwilio'n 'dawel' yn ystod oriau busnes ar adegau o risg uchel. Dylai staff gael eu hyfforddi i wybod am beth i chwilio, ond nid oes raid iddynt gael llawer o wybodaeth gan na fydd y rhan fwyaf o ddyfeisiau wedi'u cuddio'n rhy ofalus; rhaid i'r brawychwyr ddefnyddio pa bynnag fannau cuddio sydd o fewn eu cyrraedd.
- Gwnewch fesurau diogelwch yn rhan o'ch rhagofalon gwrthdrosedd arferol, ynghyd â gwirio diffoddyddion tân, chwistrellwyr, larymau tân a blancedi tân.
- Oherwydd na fydd y sawl sy'n dod o hyd i ddyfais amheus yn gallu dweud a yw'n fom tân ynteu'n ffrwydryn, briffiwch nhw i glirio'r ardal gyfagos a galw am yr heddlu. Os bydd dyfais yn cynnau, fe allai fod yn ddoeth mynd ati'n sydyn i geisio ei diffodd ar unwaith – ar yr amod bod y trefniadau arferol ar gyfer tân a hyfforddiant y staff yn addas. Cofiwch, fodd bynnag, mae'n bosib y bydd nifer o ddyfeisiau a dylech fod yn barod i wagio'r adeilad yn unol â chynlluniau a drefnwyd ymlaen llaw.

## TREFNIADAU GyDA BYGYTHIAD BOM

Bydd y rhan fwyaf o fygythiadau bom yn dod dros y ffôn. Galwadau ffug yw'r mwyafrif helaeth, sef rhywun yn chwarae castiau maleisus yn aml, er y bydd brawychwyr hefyd yn gwneud galwadau ffug.

Mae unrhyw alwad ffug fel hyn yn drosedd ac, ni waeth ba mor chwerthinllyd neu annhebygol ydynt, dylai'r heddlu gael gwybod.

Ceir dau fath o alwad gan frawychwyr:

- bygythiadau bom pan na chafodd bom ei osod. Mae'n bosib nad galwadau ffug maleisus yn unig yw'r rhain ond galwadau er mwyn tarfu, rhoi prawf ar ymateb pobl neu dynnu sylw;
- bygythiadau bom sy'n rhybuddio rhag dyfais go iawn. Efallai fod yr alwad yn ymgais i osgoi anafu pobl, ond hefyd maent yn golygu y gall y brawychwyr feio pobl eraill os bydd anafiadau.

Mae hyd yn oed y bygythiadau dilys yn aml yn anghywir o ran ble a phryd y gallai bom ffrwydro, ac weithiau nid y staff a fydd yn derbyn y bygythiad bom yw'r rhai fydd wedi'u hyfforddi a'u paratoi i ddelio â sefyllfa o'r fath. Ond er na fyddant o bosib yn gallu asesu pa mor gywir yw'r bygythiad na'i darddiad, fe allai eu hargraffiadau o'r sawl sy'n ffonio fod yn bwysig.

Mae'n bosib mai derbyn bygythiad fel hyn fydd yr agosaf y daw llawer o bobl at weithredoedd o frawychiaeth, felly cofiwch y gallai'r staff dan sylw fod mewn sioc dros dro. Mae'n bosib y bydd angen cyngor neu gefnogaeth arall ar unigolion o'r fath.

Beth allwch chi ei wneud

- Sicrhau bod yr holl staff a allai dderbyn bygythiad bom yn cael eu hyfforddi i wybod sut i ddelio â hyn – neu o leiaf fod ganddynt fynediad parod at gyfarwyddiadau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i lysoedd, banciau, gwestyau, ysbytai, asiantaethau newyddion, sefydliadau cludiant cyhoeddus, sefydliadau gwirfoddol a'r rhai sy'n cynnig unrhyw fath o wasanaeth brys. Dylai staff y switsfwrdd fod yn gyfarwydd â'r trefniadau a'u hymarfer yn rheolaidd
- Lluoio rhestr, yn ddefnyddol gyda chynghor gan CTSA eich heddlu lleol, o weithredoedd clir a hygyrch wrth dderbyn galwad (gweler isod), neu ddefnyddio'r rhestr wirio yng nghefn y llyfryn hwn os bydd bygythiad bom. Dylai eich rhestr gynnwys y cyfarwyddiadau canlynol:
  - Peidiwch â chynhyrfu a gwrandewch yn ofalus
  - Ceisiwch gael hynny o wybodaeth â phosib – ceisiwch gael y sawl sy'n galw i roi union leoliad ac amseriad y bom honedig a cheisiwch gael gwybod pwy maent yn ei gynrychioli. Os oes modd, ceisiwch gadw'r galwr ar y ffôn yn siarad
  - Gwnewch yn siwr bod y peiriant recordio wedi'i droi ymlaen, os oes gennych un
  - Pan fydd yr alwad yn dod i ben, dealwch 1471 (os bydd y system honno'n gweithio ac nad yw eu rhif i'w weld yn awtomatig) i weld a oes modd cael eu rhif
  - Rhowch wybod i'r Cydgysylltydd Diogelwch ar unwaith. Eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu ar y ffordd orau o ymateb a phwy ddylai hysbysu'r heddlu. Os na allwch gael gafael ar unrhyw un, a hyd yn oed os byddwch yn meddwl bod yr alwad yn un ffug, rhowch wybod i'r heddlu'n uniongyrchol. Rhowch eich argraffiadau o'r galwr yn ogystal â'r hyn a gafodd ei ddweud yn union.
  - Os na lwyddoch i recordio'r alwad, gwnewch nodiadau ar gyfer y staff diogelwch neu'r heddlu. Peidiwch â gadael eich desg – oni bai fod raid gwagio'r adeilad – hyd nes y bydd yr heddlu neu'r staff diogelwch yn cyrraedd.

## RHESTR WIRIO GYDA BYGYTHIAD BOM

Mae'r rhestr wirio hon yn ceisio helpu eich staff i ddelio'n effeithiol â bygythiad bom dros y ffôn a chofnodi'r wybodaeth angenrheidiol.

Argraffwch y rhestr a'i rhoi ar waliau neu ddesgiau fel bod staff yn gallu ei gweld ar unwaith. Trowch hefyd at ein cyngor ar dudalen "trefniadau gyda bygythiad bom".

Y pethau y dylech eu gwneud wrth dderbyn bygythiad bom:

- Rhowch y peiriant recordio i fynd (os yw wedi'i gysylltu)
- Dywedwch wrth y sawl sy'n galw o ba dref / ardal rydych yn ateb
- Cofnodwch union eiriad y bygythiad:

---

---

### Gofynnwch y cwestiynau canlynol:

- ble mae'r bom nawr? \_\_\_\_\_
- pryd mae'n mynd i ffrwydro? \_\_\_\_\_
- sut mae'n edrych? \_\_\_\_\_
- pa fath o fom yw hwn? \_\_\_\_\_
- beth fydd yn gwneud iddo ffrwydro? \_\_\_\_\_
- ai chi osododd y bom? \_\_\_\_\_
- pam? \_\_\_\_\_
- beth yw eich enw? \_\_\_\_\_
- beth yw eich cyfeiriad? \_\_\_\_\_
- beth yw eich rhif ffôn? \_\_\_\_\_

Cofnodwch yr amser y daw'r alwad i ben: \_\_\_\_\_

Os bydd offer datgelu rhifau awtomatig ar gael, cofnodwch y rhif a ddangosir:

\_\_\_\_\_

Rhowch wybod i'r Cydgysylltydd Diogelwch -  
Enw a rhif ffôn y sawl a hysbyswyd gennych:

\_\_\_\_\_

Cysylltwch â'r heddlu ar 999. Amser hysbysu: \_\_\_\_\_

Dylid llenwi'r rhan ganlynol unwaith y bydd y galwr wedi rhoi'r ffôn i lawr ac ar ôl hysbysu'r Cydgysylltydd Diogelwch (neu, os nad yw'r Cydgysylltydd Diogelwch ar gael, yr heddlu).

Amser a dyddiad yr alwad: \_\_\_\_\_

Hyd yr alwad: \_\_\_\_\_

Y rhif ble derbyniwyd yr alwad (h.y. rhif eich estyniad chi):

---

Rhyw: \_\_\_\_\_

Cenedl: \_\_\_\_\_

Oedran: \_\_\_\_\_

#### IAITH Y BYGYTHIAD (ticiwch)

Coeth?  
Afresymol?  
Neges ar dâp?  
Ymosodol/Sarhaus?  
Anodd ei ddeall?  
Y bygythiwr yn darllen neges?

#### LLAIS Y GALWR (ticiwch)

Digyffro?  
Crio/Wylo?  
Clirio'i wddf?  
Blin?  
Trwynol?  
Llithro dros eiriau?  
Wedi cynhyrfu?  
Atal dweud?  
Newid ei lais?  
Araf?  
Lisb?  
Acen? Os oes, pa fath? \_\_\_\_\_  
Cyflym?  
Llais dwfn?  
Llais cryg?  
Chwerthin?  
Cyfarwydd? Os yw, tebyg i lais pwy? \_\_\_\_\_

### **SYNAU CEFNDIR (ticiwch)**

Sŵn stryd?  
Sŵn ty?  
Sŵn anifeiliaid?  
Llestri?  
Cerbyd?  
Clir?  
Llais?  
Statig?  
System PA?  
Bwth?  
Cerddoriaeth?  
Peiriannau ffatri?  
Peiriannau swyddfa?  
Arall? (nodwch) \_\_\_\_\_

#### SYLWADAU ERAILL

---

---

Llofnod \_\_\_\_\_

Dyddiad \_\_\_\_\_

Printiwch enw \_\_\_\_\_